Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Swyddog Polisi

Teitl swydd: Swyddog Polisi x 2

Math o gontract: 1 cytundeb parhaol

1 cytundeb rhan amser – 12 mis

Oriau Gwaith: Llawn amser, 5 diwrnod yr wythnos
Rhan amser, 3 diwrnod yr wythnos

Cyflog: £37,112 – 45,379 y flwyddyn *pro rata*. Penodir ar waelod y raddfa fel rheol

Lleoliad: Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Gweithredir trefniant hybrid o weithio, gyda disgwyliad clir y bydd staff yn mynychu'r swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar ddiwrnod angori penodedig, yn unol â threfniadau'r swyddfa berthnasol. Yn ogystal, anogir staff i weithio ail ddiwrnod yn y swyddfa lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cefnogi cydweithio, dysgu ar y cyd a chysylltiad tîm. Ystyrir hefyd yr opsiwn i fod yn Weithiwr Cartref os nad ydych yn byw o fewn pellter rhesymol o un o swyddfeydd y Comisiynydd

Y Swydd

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig a chreadigol ymuno â thîm polisi Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth.

Mae dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth yn elfen bwysig o waith Comisiynydd y Gymraeg. Ein nod yw sicrhau bod polisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau cyhoeddus yn cyfrannu i'r eithaf at gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ac at gynyddu'r defnydd o'r iaith.

Rydym yn blaenoriaethu gwneud gwaith polisi rhagweithiol mewn meysydd blaenoriaeth ac mae ein dulliau dylanwadu yn cynnwys cynnal a chyhoeddi ymchwil, llunio adroddiadau, darparu tystiolaeth a chyngor, ymateb i ymgynghoriadau, craffu ar ddeddfwriaeth, a chynnal perthynas â gwneuthurwyr polisi.

Bydd gan y Swyddog Polisi rôl allweddol wrth ddatblygu safbwyntiau polisi'r Comisiynydd, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth megis addysg a sgiliau, iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio, tai, datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol cymunedol.

Dyma gyfle gwych i ymgeisydd sydd â phrofiad a diddordeb ym maes polisi cyhoeddus, ac sydd â'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth a data, llunio casgliadau ac argymhellion, a chyfathrebu yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Dyddiad cau: **18:00, 29/11/2026**

Amdanom ni

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen, mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn gwneud gwaith ymchwil am y Gymraeg a'i siaradwyr, gan gyhoeddi adroddiad pob pum mlynedd sy'n gynnig trosolwg cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg. Mae hefyd yn cyhoeddi canllawiau o bob math i gefnogi sefydliadau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector

a'r sector preifat. Mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo'r cynllun Iaith Gwaith, a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff y Comisiynydd wneud *unrhyw beth sy'n briodol* er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Gweledigaeth hir dymor y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith.
Mae gan y Comisiynydd Gynllun Strategol tair blynedd sy'n gosod allan blaenoriaethau'r Comisiynydd er mwyn cyflawni'r weledigaeth: Cynllun Strategol.

Cyflawnir hyn oll er mwyn gwireddu'r egwyddor a sefydlir gan y Mesur na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Disgrifiad swydd

Teitl swydd: Swyddog Polisi
Yn atebol i: Uwch Swyddog Polisi
Graddfa: HEO

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

(Fel y bydd y gwaith yn datblygu, fe all gofynion y swydd newid. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu trafod a'u cytuno â deiliad y swydd cyn eu mabwysiadu)

Prif Ddyletswyddau

1. Datblygu safbwyntiau a dylanwadu ar bolisi

- Arwain ar elfennau penodol o waith dylanwadu ar bolisi'r Comisiynydd mewn meysydd blaenoriaeth.
- Datblygu safbwyntiau'r Comisiynydd mewn perthynas ag un neu fwy o feysydd blaenoriaeth megis addysg a sgiliau, iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio, tai, datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol cymunedol.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau dylanwadu mewn meysydd polisi penodol, gan bennu amcanion, nodi'r prif gyfleoedd a rhanddeiliaid, a gwerthuso effaith y gwaith.
- Cyflwyno sylwadau ar bolisi a deddfwriaeth yn y ffordd fwyaf addas, a chynnig cyngor neu argymhellion a fydd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.
- Cymryd cyfrifoldeb am baratoi a chydlynu y gwaith o baratoi ymatebion i ymgynghoriadau polisi a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru, pwyllgorau Senedd Cymru, Senedd y DU, a chyrff cenedlaethol eraill.
- Cefnogi'r Comisiynydd a'r tîm arwain drwy gyfrannu at y gwaith o baratoi tystiolaeth i bwyllgorau Senedd Cymru a Senedd y DU ac ymholiadau gan y wasg ar faterion polisi amrywiol.

2. Cydweithio, rhannu gwybodaeth, a meithrin perthynas â rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi

- Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.

- Mynychu fforymau perthnasol a gwahanol grwpiau rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg.
- Bod yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthynas â rhanddeiliaid penodol gan gynnwys gweision sifil, ymchwilwyr a chlercod pwyllgorau'r Senedd a sefydliadau sy'n arwain datblygiad polisi cyhoeddus mewn meysydd blaenoriaeth.

3. **Ymchwilio, llunio adroddiadau, a chyfrannu at waith polisi rhagweithiol y Comisiynydd**
    - Ar sail dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol, adnabod cyfleoedd i lunio a chyhoeddi adroddiadau ymchwil a nodiadau briffio mewn meysydd polisi blaenoriaeth.
    - Datblygu dulliau rhagweithiol a chreadigol o gyfleu barn a safbwynt y Comisiynydd ar wahanol feysydd polisi, gan gynnwys y defnydd o ddata meintiol ac ansoddol.
    - Ar y cyd â'r Uwch Swyddog Polisi, cyfrannu at gomisiynu a rheoli prosiectau ymchwil mewn meysydd polisi allweddol.
    - Canfod ffyrdd o rannu gwybodaeth am safbwynt y Comisiynydd ar bolisi a deddfwriaeth a gwaith y Comisiynydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth.
    - Cydweithio â phartneriaid allanol a swyddogion sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith ymchwil y Comisiynydd er mwyn sicrhau bod gan y Comisiynydd y sail tystiolaeth angenrheidiol i allu dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth.

4. **Cydweithio â swyddogion eraill ar draws swyddfa'r Comisiynydd er mwyn rhannu gwybodaeth a chydlynu gwaith yn effeithiol**
    - Cydweithio'n agos ag aelodau eraill o'r tîm polisi a'r cyfarwyddwr strategol er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.
    - Meithrin perthynas waith effeithiol ag aelodau o dîm ymchwil a thîm cyfathrebu'r Comisiynydd er mwyn adnabod cyfleoedd i gydweithio ac i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddatblygiadau a safbwyntiau polisi'r Comisiynydd.
    - Cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr mewn timau eraill ar draws y sefydliad er mwyn deall eu ffrydiau gwaith, sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau polisi allweddol, a bod gwaith y swyddfa yn cael ei gydlynu'n effeithiol.

Dyletswyddau Cyffredinol

- Gweithredu'n gyson ac yn amserol yn unol â holl bolisïau a chanllawiau'r Comisiynydd.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw.

Manyleb person

Cymwysterau

Hanfodol
• Gradd neu gymhwyster proffesiynol mewn maes perthnasol, neu brofiad proffesiynol cyfatebol
Dymunol
• Tystiolaeth o astudio/datblygu parhaus mewn maes perthnasol

Profiad

Hanfodol
• Profiad o weithio ym maes polisi a deddfwriaeth neu mewn amgylchedd polisi cyhoeddus • Profiad o ddadansoddi ymchwil, data a thystiolaeth er mwyn datblygu safbwyntiau polisi ac argymhellion ymarferol • Profiad o allu cyfleu gwybodaeth gymhleth yn ysgrifenedig ac ar lafar yn effeithiol
Dymunol

• Profiad o weithio ym maes polisi iaith y Gymraeg
• Profiad o weithio mewn un o feysydd polisi blaenoriaeth gan gynnwys:
  • addysg a sgiliau
  • iechyd a gofal cymdeithasol
  • cynllunio, tai, a datblygu economaidd
  • chynllunio ieithyddol cymunedol.

Sgiliau a Gwybodaeth

Hanfodol
• Dealltwriaeth o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac o safonau'r Gymraeg • Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a meysydd polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg. • Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol yng Nghymru, ynghyd â'r gallu i arfer barn gadarn mewn amgylchedd gwleidyddol ac yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru a'r Senedd. • Gallu gweithio'n strategol ac yn greadigol a gweld y darlun cyfan mewn meysydd polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg • Gallu paratoi a chyflwyno adroddiadau a gwaith ysgrifenedig yn broffesiynol ac i safon uchel. • Gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg â nifer o gynulleidfaoedd gwahanol ar lafar ac yn ysgrifenedig

• Dealltwriaeth o ddata a sut i ddefnyddio data a thystiolaeth mewn gwaith polisi
Dymunol

• Sgiliau neu brofiad o waith ymchwil ansoddol neu feintiol.
• Gwybodaeth a dealltwriaeth am feysydd polisi blaenoriaeth benodol, gan gynnwys:
  • addysg a sgiliau
  • iechyd a gofal cymdeithasol
  • cynllunio, tai, a datblygu economaidd
  • cynllunio ieithyddol cymunedol.

Priodoleddau Personol

Hanfodol
• Diddordeb brwd yn yr iaith Gymraeg, materion Cymreig a gwleidyddiaeth Cymru • Gallu blaenoriaethu gwaith a gweithio i amserlenni tynn. • Gallu hunan ysgogi a gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm. • Sgiliau rhyngbersonol cryf mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol • Creadigol, brwdfrydig ac egnïol wrth ganfod dulliau gwreiddiol o weithredu.

Amodau a thelerau

Contract	1 cytundeb parhaol. 1 cytundeb rhan amser dros dro.
Oriau Gwaith	37 awr yr wythnos (Heb gynnwys toriadau prydau bwyd). 22.5 awr yr wythnos (heb gynnwys toriadau prydau bwyd).
Cyflog	£37,112 - £45,379 *pro rata*. Penodir ar waelod y raddfa fel rheol. Caiff y cyflog ei dalu'n fisol, fel rheol ar ddiwrnod olaf y mis.
Lleoliad	Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Gweithredir trefniant hybrid o weithio, gyda disgwyliad clir y bydd staff yn mynychu'r swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar ddiwrnod angori penodedig, yn unol â threfniadau'r swyddfa berthnasol. Yn ogystal, anogir staff i weithio ail ddiwrnod yn y swyddfa lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cefnogi cydweithio, dysgu ar y cyd a chysylltiad tîm. Ystyrir hefyd yr opsiwn i fod yn Weithiwr Cartref os nad ydych yn byw o fewn pellter rhesymol o un o swyddfeydd y Comisiynydd.
Pensiwn	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Pensiwn

	y Gwasanaeth Sifil. Yn unol â Deddf Pensiynau 2008 mae'n ofynnol i ni eich cofrestru'n awtomatig – os ydych am eithrio eich hunan o'r cynllun pensiwn bydd gofyn i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig.
Oriau hyblyg	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun gweithio oriau hyblyg (fflecsi).
Gwyliau	Yn flynyddol cewch 31 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol ac 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus gyda chyflog a 3 diwrnod braint y flwyddyn (pro-rata os yn gweithio oriau rhan amser).
Cyfnod Prawf	Bydd cyfnod prawf o 3 mis.